



# Adroddiad gwerthuso ar wasanaeth Cysylltu Cymunedol Barnardo's Cymru Blaenau Gwent

**Vikki Butler**

Mai 2015



## **CYDNABYDDIAETH**

Mae prosiect Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent wedi cael ei ariannu gan y Loteri Fawr a'i ddarparu gan Barnardo's Cymru. Comisinwyd C.A.R.P. Collaborations gan Barnardo's Cymru i werthuso'r prosiect yn allanol. Hoffem ddiolch i holl staff Barnardo's Cymru am gefnogi'r gwerthusiad hwn ac am weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r tîm gwerthuso.

Rydym yn ddiolchgar i'r bobl ifanc a gymrodd ran yn y prosiect am gyfrannu at y gwerthusiad hwn ac am eu hymdrech yn ystod y grwpiau ffocws. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r rhieni a gymrodd ran yn y grwpiau ffocws ac am rannu profiadau a barn sydd wedi cyfoethogi'r adroddiad gwerthuso terfynol.

Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's Cymru – Elaine Speyer - Gwaith maes: casglu a choladu gwybodaeth.

### **TÎM GWERTHUSO C.A.R.P. COLLABORATIONS**

Vikki Butler: rheolwr prosiect, dylunio gwaith maes, dadansoddi, cynhyrchu a lledaenu adroddiad

Hattie Hendra: gwaith maes a lledaenu

## CYNNWYS

		<b>Tud. Rhif</b>
Rhagarweiniad:	Rhesymeg a methodoleg y gwerthusiad	4
Canlyniad asesu 1:	Bydd gan bobl ifanc rwydweithiau cymdeithasol gwell, byddant yn teimlo'n llai ynysig a bydd ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau	8
Canlyniad asesu 2:	Bydd grwpiau cymunedol yn fwy cynhwysol ac yn fwy croesawus i grŵp ehangach o bobl ifanc anabl	15
Canlyniad asesu 3:	Bydd gan bobl ifanc fwy o hunanhyder a sgiliau cymdeithasol gwell	20
Canlyniad asesu 4:	Bydd dysgu o'r prosiect yn goleuo darpariaeth well o wasanaethau ac yn helpu i ddatblygu'r modelau sy'n gweithio orau i gefnogi pobl ifanc anabl wrth iddynt dyfu'n oedolion	23
Canlyniadau annisgwyl:		25
Casgliadau ac argymhellion:		30

## **ADRAN 1: RHESYMEG A METHODOLEG Y GWERTHUSIAD**

### **Beth yw Gwasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent**

Cafodd Wasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent ei ddarparu gan Barnardo's Cymru a'i ariannu rhwng Awst 2013 ac Awst 2015 gan Gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr. Roedd y prosiect yn gweithio ar sail pedwar canlyniad a deg dangosydd, ond yn gyffredinol ei nod oedd gweithio gyda phobl ifanc rhwng 14 a 21 oed i wella hyder, creu rhwydweithiau cymdeithasol a galluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cymdeithasu er mwyn dysgu sgiliau personol cryf ar gyfer pontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion.

Dros y ddwy flynedd, mae Gwasanaeth Cysylltu Cymunedol Barnardo's Cymru wedi gweithio gyda 50 o bobl ifanc (gallai hyn gynyddu oherwydd bod y prosiect yn derbyn cohort newydd o bobl ifanc rhwng Ebrill ac Awst 2015). Fodd bynnag, dewisodd 22 o'r bobl ifanc hyn weithio gyda'r prosiect dros y ddwy flynedd i ganolbwyntio ar wahanol ganlyniadau sgiliau. Wedi ystyried hyn, mae'r prosiect felly wedi gweithio gyda chyfanswm o 31 o bobl ifanc ym mlwyddyn 1 a chyfanswm o 45 o bobl ifanc yn yr ail flwyddyn. Cysylltodd y prosiect hefyd ag 11 o bobl ifanc eraill ond, ar ôl ymweliadau teuluol a sesiynau un-i-un rhagarweiniol, penderfynodd y bobl ifanc beidio â pharhau gyda'r prosiect. Mae'r prosiect wedi gweithio gyda 29 o fechgyn a 21 o ferched.

Mae'r prosiect wedi cyflawni amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Mae wedi darparu cyrsiau a gweithgareddau grŵp i bobl ifanc, wedi rhoi cymorth un-i-un i bobl ifanc, wedi trefnu iddynt ymweld â mannau a chynullfannau cymunedol i'w gwneud yn gyfarwydd â'u cymuned ac wedi darparu hyfforddiant anffurfiol mewn cynullfannau cymunedol i fod yn groesawus i bobl ifanc anabl, wedi cefnogi lleoliadau gwaith, wedi chwilio am a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli ac wedi darparu hyfforddiant ffurfiol i ymarferwyr prif ffrwd.

### **Pwrpas y gwerthusiad**

Nod y gwerthusiad hwn yw:

1. Asesu i ba raddau y mae gwasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent wedi cwrdd â'r pedwar canlyniad a'r deg dangosydd a ddisgrifiwyd yn eu bid am gyllid i'r Loteri Fawr yn 2013.
2. Darparu sylwadau dadansoddol pellach ar effeithiolrwydd y gwasanaeth, canlyniadau annisgwyl ac argymhellion ar gyfer hybu mwy o gysylltu cymunedol ym Mlaenau Gwent.
3. Cynnig esboniadau dadansoddol ar sail data ansoddol ar y rhesymau posibl y tu ôl i'r canlyniadau a'r dangosyddion lle na chawsant eu cwrdd neu lle rhagorwyd arnynt.
4. Cynhyrchu adroddiad clir i'w gylchredeg i gyllidwyr, partneriaid y prosiect a phartion budd eraill, lle bo'n briodol.
5. Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc a'u rhieni'n cael eu clywed yn glir drwy'r adroddiad gwerthuso ac yn cyfrannu at ledaenu arferion da drwy'r gwerthusiad.

## Methodoleg y gwerthusiad

Defnyddiodd y gwerthuswyr gyfuniad o dulliau i ddadansoddi i ba raddau y cafodd y dangosyddion a'r canlyniadau eu cwrdd. Yn ogystal â'r wybodaeth feintiol am dargedau a gawsant gan wasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent, mae'r gwerthuswyr hefyd wedi cyflawni gwaith ansodol i asesu cyd-destun ac effaith bersonol llwyddiannau'r prosiect.

O ran dulliau a ffynonellau data, mae'r gwerthuswyr wedi cyflawni'r canlynol:

- Crynodebau o'r cynlluniau gweithredu personol am y flwyddyn ar gyfer pob person ifanc y bu'r prosiect yn gweithio gyda nhw. Derbyniodd y gwerthuswyr 39 o gynlluniau gweithredu unigol. Mae'r cynlluniau gweithredu'n nodi'r canlyniadau personol yr oedd y bobl ifanc eisiau eu cyrraedd, a'u hasesiad nhw o ba mor bell y daethant gyda chyrraedd eu canlyniad personol.
- Data monitro ac adborth a gasglwyd gan wasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent.
- Pedwar grŵp ffocws cyfranogol gyda rhwng saith a deuddeg o bobl ifanc a lwyddodd i gwblhau o leiaf un o'r cyrsiau grŵp sy'n ceisio gwella sgiliau personol. Roedd rhai o'r bobl ifanc hyn wedi bod ar fwy nag un cwrs ac roedd rhai hefyd yn derbyn cymorth un i un.
- Gwerthusiad o ddiwrnod hwyl y gwasanaeth. Roedd hyn wedi cynnwys deg o rieni, chwech o frodyr/chwiorydd a naw o gyfranogwyr y prosiect. Roedd y gwerthuswyr wedi dylunio dau weithdy gwerthuso'n defnyddio dulliau creadigol fel bo'r cyfranogwyr a'u teuluoedd yn gallu trafod pedwar canlyniad y prosiect.
- Un grŵp ffocws diwedd prosiect gydag wyth o rieni.
- Data o sesiwn hunanwerthuso'r gwasanaeth.
- Cynigiwyd ffurflenni gwerthuso hyfforddiant i arweinwyr ifanc, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd y ffurflenni wedi eu dylunio fel bo'r cwestiynau'n cyfateb yn uniongyrchol i amcanion y canlyniadau.
- Sesiwn adborth gyfranogol. Cyfarfu'r gwerthuswyr â'r bobl ifanc i gadarnhau bod y dadansoddiad o'r prosiect yn gywir, i glywed unrhyw ganlyniadau yr oedd y bobl ifanc eisiau eu pwysleisio, i glywed beth y byddent am ei ddweud wrth gynulleidfaoedd gwahanol ar gyfer yr adroddiad ac i sicrhau bod strwythur yr adroddiad yn cyd-fynd â'u profiadau.

Mae'r gwerthusiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o bob un o'r dulliau hyn, ac yn hytrach nag adroddiad ar y canfyddiadau o bob dull, trefnir y data'n ôl y dangosyddion a gytunwyd ar gyfer pob canlyniad. Drwy wneud hyn, gall y cyllidwyr a'r partneriaid nodi'n glir beth oedd llwyddiannau'r prosiect, y targedau na chawsant eu cwrdd neu y rhagorwyd arnynt, a'r rhesymau y tu ôl i hynny, a hefyd nodi'n glir yr arferion da a sut efallai y gellid symud ymlaen gyda chysylltu cymunedol ym Mlaenau Gwent.

## **Dod o hyd i wybodaeth benodol i wahanol ddarllenwyr yr adroddiad hwn**

Yn y sesiwn adborth gyfranogol gyda phobl ifanc, trafodwyd strwythur yr adroddiad hwn. Eglurodd y gwerthuswyr beth oedd canlyniadau'r prosiect, a thrafodir barn y bobl ifanc am y canlyniadau hynny ym mhob adran. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd edrych ar bwrpas yr adroddiad hwn a beth y byddai gwahanol gynulleidfaoedd efallai eisiau ei weld. Teimlai'r bobl ifanc y dylai hyn fod yn glir ac wedi'i gyflwyno ar ddechrau'r adroddiad.

### *Neges gan y bobl ifanc i Gyllidwyr*

Teimlai'r bobl ifanc y byddech eisiau gwybod bod eich arian wedi cael ei wario ar y pethau iawn ac, felly, y byddai gennych ddiddordeb yn yr adroddiad cyfan. Roeddent eisiau tynnu eich sylw'n benodol at y nifer o wahanol bethau yr oeddent wedi'i wneud na chawsant gyfle i'w gwneud o'r blaen ac y byddant yn parhau i'w gwneud ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Pwysleisiodd y bobl ifanc fod y profiadau newydd hyn wedi bod yn llawn hwyl a'u bod yn eu gwir werthfawrogi oherwydd y cawsant emosiynau a theimladau da ohonynt. O holl ganlyniadau'r prosiect, teimlent mai'r gwahaniaeth i'w hyder a chael ffrindiau y tu allan i amser ysgol oedd yr agweddau pwysicaf ar y prosiect. Er nad yw'r adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad cyllidebol, mae'r adrannau i gyd yn ymwneud â'r gwahanol weithgareddau ac roeddent yn gobeithio y byddid yn ystyried bod yr arian wedi cael ei wario'n dda. Y wybodaeth am ganlyniadau 1 a 3 yw'r rhai pwysicaf o safbwynt y bobl ifanc.

### *Neges gan y bobl ifanc i rieni ac aelodau teulu*

Teimlai'r bobl ifanc y byddech eisiau gwybod y gofalwyd amdanynt yn briodol a pha mor dda wnaeth y staff ryngweithio gyda nhw. Rhoddir sylwadau'r bobl ifanc ar y staff yn adran 6 sy'n trafod canlyniadau annisgwyl. Teimlent hefyd y byddai eu teulu eisiau gwybod bod y prosiect wedi bod yn hwyl ond heriol; ond bod y profiadau newydd wedi dod â hapusrwydd, ffrindiau newydd ac wedi gwella eu hyder yn sylweddol. Trafodir y wybodaeth yma yng nghanlyniadau 1 a 3.

### *Neges gan y bobl ifanc i reolwyr Cysylltu Cymunedol a rheolwyr Barnardo's Cymru*

Teimlai'r bobl ifanc y dylech glywed am ba mor dda y cyflawnodd y staff yn Cysylltu Cymunedol eu gwaith. Yn enwedig, pwysleisiwyd amynedd, cefnogaeth a chael hwyl a bod y staff wedi bod fel teulu iddynt. Sonnir mwy am staffio yn adran 5 sy'n trafod canlyniadau annisgwyl.

### *Neges gan y bobl ifanc i sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc*

Teimlai'r bobl ifanc y byddai gennych efallai ddiddordeb yn y gwahanol weithgareddau a wnaethant, ond ei bod yn bwysig eich bod hefyd yn clywed am sut y gwnaethant weithio gyda'r bobl ifanc yn unigol a'u cefnogi i ennill profiadau newydd. Roeddent eisiau tynnu sylw at y pethau yr oeddent wedi llwyddo i'w cyflawni y tu allan i'r ysgol gan gynnwys: perfformio; ysgrifennu caneuon; cymryd rhan mewn fforymau a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys mynd i'r Senedd a siarad mewn cynadleddau; creu hanesion digidol; a llawer iawn o chwaraeon risg. Teimlent na fyddent wedi magu'r hyder i wneud y pethau hyn heb sgiliau cyfathrebu ac amynedd y staff. Rhoddir mwy o fanylion am gyfranogiad y bobl ifanc a'u rheolaeth o fywyd yng nghanlyniad 1; a sonnir mwy am ddysgu o'r prosiect, gan gynnwys arferion da, yng nghyswllt canlyniad 4 ac yn Adran 6 sy'n trafod canlyniadau annisgwyl.

### *Neges gan y bobl ifanc i Lywodraeth Cymru*

Roedd y bobl ifanc eisiau mwy o gyfle i siarad yn uniongyrchol â'r Llywodraeth am y pethau sydd eu hangen arnynt i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion. Trafodwyd y mater o sicrhau cyllid uniongyrchol gan y llywodraeth i gefnogi prosiectau; yn enwedig i bobl ifanc sydd angen cymorth arnynt

i fynychu gweithgareddau hamdden prif ffrwd ac i ennill sgiliau annibyniaeth. Teimlai'r bobl ifanc y dylai fod gan y Llywodraeth ddiddordeb yn yr adroddiad cyfan.

## **CANLYNIAD ASESU 1: BYDD GAN BOBL IFANC RWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL GWELL, BYDDANT YN TEIMLO’N LLAI YNYSIG A BYDD GANDDYNT FWY O DDEWIS A RHEOLAETH DROS EU BYWYDAU**

Rhennir y canlyniad hwn yn dri dangosydd gwahanol. Mae’r dadansoddiad a’r sylwebaeth isod yn defnyddio gwahanol setiau data a ddisgrifir yn y rhagarweiniad. Mae dangosyddion 1 a 3 yn debyg iawn ac yn cynnwys yr un wybodaeth ymchwil. Adroddir ar y ddau gyda’i gilydd felly.

**Dangosydd 1: Nifer y bobl ifanc sy’n adrodd eu bod yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a / neu waith (targed 70-100)**

**Dangosydd 3: Nifer y bobl ifanc sy’n adrodd newid positif o ddefnyddio cynullfannau cymunedol, adnoddau a gwasanaethau cymorth newydd (targed 80-100)**

Mae’r prosiect wedi cyflawni nifer fawr o wahanol weithgareddau sydd i gyd wedi galluogi pobl ifanc i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden neu waith, ac wedi arwain at newidiadau positif. Yn unfrydol yn y grwpiau ffocws gyda phobl ifanc a rhieni, adroddwyd canlyniadau positif gan y cyfranogwyr ar gyfer y ddau ddangosydd hyn. Nid yw data cynlluniau gweithredu’n ymwneud yn uniongyrchol â’r ddau ddangosydd hwn, ond drwy gasglu o’r canlyniadau y dywedodd y bobl ifanc eu bod eisiau gweithio tuag atynt yn eu cynllun gweithredu, mae’r data i gyd yn awgrymu’n gryf bod pob un o’r 50 a gymrodd ran yn y prosiect yn cyfrannu mwy at weithgareddau ac yn adrodd newidiadau positif fel dysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a theimlo bod ganddynt fwy yn eu bywydau.

Er nad yw’r prosiect wedi gorffen eto, a gallai nifer y cyfranogwyr felly gynyddu, ar hyn o bryd mae dangosydd 1 wedi’i gwrdd o 71 y cant a dangosydd 3 o 63 y cant. Er bod hyn o dan y targed, dylid nodi bod y bobl ifanc i gyd a gymrodd ran yn y prosiect wedi adrodd canlyniadau positif ar gyfer dangosyddion 1 a 3. Hefyd, er mwyn asesu’n iawn i ba raddau y llwyddwyd i gwrdd â’r dangosyddion hyn, rhaid archwilio’r data ansoddol yn ogystal â’r data rhifol.

Mae’r prosiect yn cynnwys dwy wahanol elfen sy’n cyfrannu at y dangosyddion hyn. Yn gyntaf, maent wedi darparu gweithgareddau grŵp ar gyfer cyfranogwyr y prosiect sydd, ynddo’i hun, wedi gwella cyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden neu waith, ac yn ail maent wedi cyflawni gwaith cysylltu cymunedol unigol ar wahân i’r gwaith grŵp a arweiniodd at gynnydd mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a gwaith y tu allan i’r gwasanaeth. P’un ai y digwyddodd y cynnydd mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a gwaith drwy weithgareddau grŵp neu drwy gysylltu cymunedol unigol, dywedodd bob un o’r bobl ifanc y gwelsant newid positif o ran ennill sgiliau ymarferol, sgiliau personol a ffrindiau.

### *Gweithgareddau grŵp y prosiect*

Mae’r prosiect wedi hwyluso ystod o weithgareddau grŵp gan gynnwys tripiâu undydd, creu clybiau a chynnal cyrsiau. Manylir ar y rhain isod:

#### Cyrsiau Grŵp

Cyrsiau cerdd: cynhaliwyd y rhain ym mlwyddyn 1 a 2, gyda gweithgareddau’n cynnwys chwarae offerynnau cerdd, recordio lleisiau a defnyddio technoleg cerdd i greu caneuon. Tynnodd rai pobl ifanc hefyd luniau neu fideo gan ddefnyddio TG i greu fideos i gyd-fynd â’r caneuon.



Byw'n annibynnol: ar ôl sesiwn ragarweiniol, roedd y bobl ifanc yn dewis beth oeddent eisiau ei ddysgu ar y cwrs, o restr opsiynau. Roedd pobl ifanc wedi dewis dysgu am arian, hylendid, y corff ac iechyd, tasgau'r tŷ, pryderon a straen a delio gyda bwlio. Mae'r cwrs hwn wedi cael ei redeg yn rheolaidd ym mlynnyddoedd 1 a 2 ac wedi cadw'r elfennau cyffredinol ond gyda sgôp i'r cyfranogwyr ddewis rhai agweddau.

Cwrs Preswyl Haf: cynhaliwyd cwrs preswyl haf dros ddau ddiwrnod rhwng blynnyddoedd 1 a 2 oedd yn cynnwys aros dros nos, chwaraeon risg a gweithgareddau gwyliau.

Gweithgarwch corfforol: Roedd pob un o gyfranogwyr y sesiwn werthuso wedi mynychu'r cwrs undydd hwn ar saethyddiaeth a chanŵio.

Dewch i fwyta 'da ni: cwrs chwe wythnos yn dysgu hylendid bwyd oedd hwn a sut i goginio chwech o wahanol brif gyrsiau a phwдинаu. Roedd pump o'r cyfranogwyr gwerthuso wedi mynychu'r cwrs hwn. Roedd mwy o bobl ifanc wedi mynychu'r cwrs ond nid oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn werthuso.

Diogelwch Ffyrdd: croesi ffyrdd a dechrau teithio'n annibynnol.

Clwb gwaith: rhedodd hwn ym mlwyddyn 1 i helpu pobl ifanc i ysgrifennu CV, ystyried pa waith fyddai orau ganddynt ei wneud a dod o hyd i brofiad gwaith.

Diogelwch Personol: ymwybyddiaeth o bobl ddieithr, ymdopi â bwlio, ffrindiau positif a seiber-ddiogelwch.

Clwb crefft Nadolig: gwneud addurniadau, cyllidebu, creu stondin farchnad a delio gyda chwsmeriaid.

Dau ddigwyddiad cyfranogi i deuluoedd: fel bod brodyr / chwiorydd, cyfranogwyr y prosiect a rhieni'n gallu rhoi mewnbwn i'r gwasanaeth; i gael hwyl fel teulu a chwrdd â theuluoedd a ffrindiau eraill a fynychodd weithgareddau'r prosiect hefyd.

Grŵp cyfranogi: fel y gall unrhyw un o gyfranogwyr y prosiect ddod i gyfarfodydd misol i roi eu barn am sut y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac fel bod cynrychiolwyr y fforwm yn adrodd yn ôl i'r grŵp ehangach.

Rhaglen ddigwyddiadau'r haf: fel bod pobl ifanc yn gallu aros mewn cysylltiad â'u ffrindiau dros y gwyliau, bydd yn cynnwys gweithgareddau awyr agored a gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent.

Hyfforddiant rhyw a pherthnasoedd: cwrs sydd i'w redeg pan ysgrifennir yr adroddiad hwn ac sy'n cynnwys sesiynau wythnosol i bobl ifanc ac un sesiwn ar wahân ar gyfer rhieni, wedi'i ddarparu mewn partneriaeth â Cyswllt Teulu Cymru.

*Ymweld â manau neu gynullfannau cymunedol*

I helpu pobl ifanc i ddod yn gyfarwydd â'u hardal leol, mae'r prosiect wedi hwyluso ymweliadau i, neu weithgareddau mewn cynullfannau cymunedol ac wedi cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol. Er nad yn cynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol mewn clybiau prif ffrwd, mae'r ymweliadau a'r gweithgareddau hyn wedi bod yn gam ymlaen i helpu cyfranogwyr y prosiect i ddod i

adnabod eu cymuned leol a magu mwy o hyder ynddynt pan fyddant mewn cynullfannau prif ffrwd. Rhestrir yr holl ymweliadau a gweithgareddau isod.

Trip grŵp i arddangosfa tân gwyllt leol: roedd y gweithgaredd hwn nid yn unig er mwyn gallu cymdeithasu yn y gymuned leol ond hefyd i roi sgiliau ar waith a ddysgwyd ar rai o'r cyrsiau eraill, fel diogelwch ar y ffyrdd, rheoli arian a magu hyder.

Stondin yn y ffair grefftau Nadolig: roedd hyn yn gyfle i'r bobl ifanc gwrdd ag aelodau o'r gymuned, stondinwyr eraill ac i werthu'r crefftau a wnaethant yn y clwb crefft; gan olygu dysgu amrediad o sgiliau personol a hefyd cyllidebu a menter.

Defnyddio adnoddau a chynullfannau cymunedol: Mae grwpiau o bobl ifanc wedi ymweld â chanolfannau cymunedol lleol fel Kidz R Us, Brynmawr LAC, Stiwt Glynebwy a Chanolfan Gymunedol Winchestown. Maent hefyd wedi ymweld ag adnoddau lleol fel y ganolfan waith, bwyty lleol y Brewers Fayre, McDonalds, Big Pit, archfarchnadoedd, y sinema, canolfan hamdden a pharciau lleol.

Er y gellid meddwl mai mannau digon cyffredin yw'r rhain i ymweld â nhw, neu i gynnal grwpiau, mae'r nod mewn tair rhan. Yn gyntaf, er mwyn hwyluso sesiwn grŵp fydd yn magu hyder a datblygu sgiliau ond hefyd, yn ail, er mwyn helpu'r bobl ifanc i ddod i wybod am beth sydd ar gael iddynt ac i adnabod y staff a'r adeilad, ac yn olaf, i fagu hyder a meithrin gallu'r staff presennol i fod yn hyderus wrth gefnogi pobl ifanc gydag anawsterau dysgu sy'n defnyddio eu hadnoddau. Mae hyn yn ffordd effeithiol o weithio oherwydd mae'n annog cyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol drwy ymgyswrtu, heb fynd ag amser sesiwn grŵp gwerthfawr ac yn helpu staff i ddysgu sgiliau ymarferol. Mae hefyd yn werth nodi nad oedd llawer o'r bobl ifanc wedi ymweld ag unrhyw un o'r mannau hyn heb deulu, felly roeddent yn anghyfarwydd iddynt. Dywedodd y bobl ifanc y byddent yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau cymunedol hyn ar ôl ymweld â nhw gyda'r prosiect.

### *Gwaith cysylltu cymunedol*

Mae 29 o gyfranogwyr y prosiect wedi ymuno â grwpiau a gweithgareddau prif ffrwd fel unigolion ac mae pump o bobl ifanc eraill ar hyn o bryd wrthi'n ymuno â grwpiau prif ffrwd cyn i'r prosiect orffen, gan roi cyfanswm o 34 o gysylltiadau unigol ar gyfer tua dwy ran o dair o'r holl gyfranogwyr. Mae'r gwaith cysylltu cymunedol wedi cael ei wneud ar sail un-i-un ac wedi cynnwys cefnogi pobl ifanc i ymuno â grŵp neu gyflawni gweithgaredd o'u dewis nhw. Roedd rhai o'r bobl ifanc hyn wedi derbyn cymorth cychwynnol i fynychu'r gweithgareddau prif ffrwd, roedd rhai'n parhau i dderbyn cymorth ac eraill wedi mynychu gweithgareddau cymunedol yn annibynnol i'r prosiect.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r gweithgareddau cymunedol a ddewisodd y bobl ifanc.

- Pump o bobl ifanc wedi ymuno ag un clwb neu weithgaredd: clwb trampolîn, côr, merlota, gymnasteg a gwersi gitâr.
- Mynychodd ddau berson ifanc gynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru lle cawsant gyfle i gwrdd â darparwyr gwasanaeth eraill a phobl ifanc eraill.
- Mae un person ifanc wedi ymuno â Fforwm Ieuentid Blaenau Gwent.
- Mae pedwar o'r bobl ifanc wedi ymuno â chlybiau ieuentid prif ffrwd ac yn parhau i fynychu'n annibynnol.
- Aeth pump o'r bobl ifanc ar leoliadau gwaith gyda chefnogaeth - un mewn caffi, dau ym Mharc Gardd Les Terence, un mewn sinema ac un mewn siop grefft leol.
- Aeth dri i wirfoddoli - mae rhai o'r lleoliadau gwaith gyda chefnogaeth wedi datblygu'n lleoliadau gwirfoddoli i gynnig profiad gwaith mwy hirdymor a sgiliau perthnasol i waith. Mae'r sinema a'r

siop grefft wedi cadw'r bobl ifanc ymlaen fel gwirfoddolwyr fel y medrant ennill profiad gwaith. Mae un person ifanc a fu'n gwirfoddoli mewn siop elusen leol bellach yn aelod o staff cyflogedig.

- Ymunodd ddau berson ifanc â chwrs addysg yn y gymuned: crochenwaith ac addurno cacennau.
- Ymunodd un person ifanc â dau glwb chwaraeon: dawnsio stryd a thenis.
- Mae un person ifanc yn gwirfoddoli gyda gwasanaeth cymunedol: gorsaf radio.
- Cefnogwyd dau berson ifanc i ymuno â grŵp golygyddol y gwasanaeth ieuenctid. Mae'r grŵp yn rhedeg gwefan y gwasanaeth ieuenctid ac yn cwrdd yn fisol ac mae'r bobl ifanc bellach yn mynychu'n annibynnol.
- Ymunodd dri o'r bobl ifanc â chlwb drama lleol ac maent wedi parhau i fynychu heb gymorth ac wedi perfformio yn y pantomeim lleol.
- Cefnogwyd tri o'r bobl ifanc i sefydlu clwb bechgyn: maen nhw bellach yn cyfathrebu'n annibynnol ac yn trefnu i gyfarfod bob wythnos, a heb gymorth, mewn gwahanol gynullfannau cymunedol (nofio, campfa, sinema etc).

Bydd cyfnod terfynol y prosiect yn cynnwys lleoliadau gwaith i bump o bobl ifanc eraill, mewn siop trin gwallt, busnes twtio cŵn, siop elusen a phrosiect bywyd gwyllt.

### *Asesu llwyddiant gyda chwrdd â dangosyddion 1 a 3*

Nid yw'r prosiect wedi gweithio gyda digon o bobl ifanc i allu cwrdd â'r targed rhifol. Fodd bynnag, mae'r data ansoddol yn dangos bod llawer o'r bobl ifanc wedi dod yn eu blaenau'n aruthrol. Drwy lwyddo i sefydlu 35 o gysylltiadau cymunedol ar gyfer pobl ifanc nad oeddent wedi teithio ar eu pen eu hunain o'r blaen, oedd â bywydau cymdeithasol prin, ac yn nodi bod ganddynt hyder isel, mae hyn yn arwyddocaol dros ben.

Hefyd, mae'r prosiect yn amlwg wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau bod y bobl ifanc yn dewis beth maen nhw eisiau ei wneud, fel y gwelwn o'r nifer fawr o wahanol adnoddau cymunedol y bu'r prosiect yn gweithio gyda nhw a nifer y gwahanol weithgareddau grŵp a gynigiwyd. Nid oes gennym ddata i asesu faint o bobl ifanc a ddefnyddiodd gynullfannau ac adnoddau cymunedol yn annibynnol oherwydd mai manau cyfarfod anffurfiol ydynt; ond drwy gael pobl ifanc i ddod i adnabod y gymuned o'u cwmpas, mae'r gwasanaeth yn cymryd y camau angenrheidiol i gynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

### **Dangosydd 2: Mae pobl ifanc yn dangos sgiliau annibyniaeth gwell ar ôl mewnbwn gan sesiynau unigol neu grŵp**

Y nifer darged ar gyfer y dangosydd hwn oedd 80-100 o bobl ifanc dros gyfnod y prosiect. Dangosydd bob un o'r 50 o bobl ifanc welliant o ran eu hannibyniaeth, er nad oedd bob un wedi nodi hynny yn eu cynlluniau gweithredu personol. Oherwydd bod y prosiect wedi gweithio gyda 50 o bobl ifanc, cyfarfu'r dangosydd hwn o 63 y cant. Daw'r data ar gyfer hyn o gynlluniau gweithredu, grwpiau ffocws o bobl ifanc a rhieni, ac o ddata monitro'r prosiect. Pwysleisiodd y bobl ifanc mai ennill sgiliau annibynnol oedd un o ddwy flaenoriaeth iddynt (y llall oedd ennill mwy o hyder, ac edrychwn ar hyn yng nghanlyniad 2).

Allan o'r 39 o gynlluniau gweithredu personol, dewisodd 35 o'r bobl ifanc fwy o annibyniaeth fel eu nod personol. Wrth gymryd rhan yn y prosiect, byddai'r bobl ifanc yn sgorio pa mor annibynnol oedden nhw'n teimlo ac yna'n adolygu hyn bob tri mis. Gydag amser, dylai'r sgôr hwn gynyddu.

Cynnydd yn y sgôr	Nifer y bobl ifanc
Yn newydd i'r prosiect felly dim ail sgôr eto	Pump o bobl ifanc
Dim cynnydd na lleihad yn y sgôr	Dau o bobl ifanc
Sgôr wedi cynyddu o 1 pwynt	Wyth o bobl ifanc
Sgôr wedi cynyddu o 2 bwynt	12 o bobl ifanc
Sgôr wedi cynyddu o 3 phwynt	6 o bobl ifanc
Sgôr wedi cynyddu o 4 pwynt	Un person ifanc

Dengys y tabl hwn fod y bobl ifanc eu hunain yn teimlo bod ganddynt fwy o annibyniaeth ac, ar gyfer rhai o'r bobl ifanc, roedd hyn yn gynnydd mawr.

Dengys y data ansoddol enillion mawr mewn sgiliau annibynnol ar ôl i'r bobl ifanc dderbyn cymorth grŵp neu unigol. Roedd yn arbennig o amlwg yn y bobl ifanc a gafodd gyfle i gymryd rhan mewn dysgu sgiliau byw'n annibynnol ac yna a gyflawnodd weithgareddau pellach a ddyfeisiwyd i weithredu'r sgiliau a ddysgwyd. Yn ogystal, dangosodd y bobl ifanc a arhosodd gyda'r prosiect am y ddwy flynedd fwy o gynnydd yn eu hannibyniaeth na'r rhai oedd wedi bod gyda'r prosiect am lai o amser. Mae paradocs yma oherwydd byddid efallai'n disgwyl na fyddai angen cymorth prosiect ar bobl ifanc a enillodd fwy o annibyniaeth. Drwy fod gyda'r prosiect am ddwy flynedd, roedd y bobl ifanc wedi gallu cynyddu eu hannibyniaeth a mentro yn eu hamser eu hunain. Ni fyddai hyn wedi digwydd pe bai'r prosiect wedi'i gyfyngu gan amser ar gyfer y bobl ifanc. Y bobl ifanc a ddefnyddiodd gyfuniad o weithgareddau, h.y. mwy nag un cwrs, oedd y rhai a ddangosodd yr enillion mwyaf o ran annibyniaeth.

Siaradodd y rhieni'n unfrydol am yr enillion mewn annibyniaeth y teimlent fod y prosiect wedi eu rhoi i'w pobl ifanc gan fyfyrto y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer y gwaith yr oedd prosiect Cysylltu Cymunedol Barnardo's Cymru yn ei wneud. Disgrifiodd y rhieni ddau amgylchiad a newidiodd i'r bobl ifanc ar ôl iddynt ennill mwy o annibyniaeth. Yn gyntaf, disgrifiwyd sut oedd y bobl ifanc yn fwy hunangynhaliol ac yn cyflawni tasgau priodol i'w hoed yn y cartref heb i'w rhieni orfod gofyn iddynt. Yn ail, dywedodd y rhieni fod y profiad o roi cynnig ar bethau newydd a dysgu mwy o sgiliau bywyd wedi helpu eu pobl ifanc i feddwl mwy am eu dyfodol a magu dyheadau ynddynt y gellid eu gwireddu. Teimlai'r rhieni fod hyn yn newid trawiadol, yn enwedig i'r bobl ifanc oedd wedi bod ar leoliadau gwaith, wedi gwirfoddoli ac wedi mynychu gweithgareddau a chynullfannau cymunedol ar eu pen eu hunain.

Ymddengys bod cwrs preswyl yr haf wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn gwella sgiliau annibynnol. I lawer o'r bobl ifanc, dyma'r tro cyntaf iddynt aros oddi cartref dros nos a gorfod bod yn gyfrifol am eu tasgau beunyddiol eu hunain (ymolchi, brecwast a golchi llestri, gwneud y gwely, etc). Disgrifiodd y rhieni eu bod wedi eu cyffwrdd i'r byw o weld eu plentyn yn cael y profiad hwn ac o glywed am yr annibyniaeth yr oeddent wedi'i hennill. Roedd hon yn garreg filltir enfawr i lawer o'r rhieni oherwydd, yn aml iawn, nid yw plant anabl bob amser yn rhannu'r cerrig milltir a fwynheir gan eu cyfoedion corfforol abl. Er enghraifft, efallai fod cyfoedion corfforol abl wedi bod yn cysgu dros nos yn nhai eu ffrindiau ers yr ysgol gynradd, ond yn aml iawn nid yw pobl ifanc anabl wedi cael y cyfle hwn felly mae aros i ffwrdd oddi cartref yn gam mawr i ennill annibyniaeth.

Mae'n glir o'r data ar ddefnyddio gweithgareddau ac adnoddau cymunedol newydd (canlyniad 1, dangosydd 1) fod rhai pobl ifanc yn dechrau defnyddio adnoddau cymunedol prif ffrwd yn annibynnol i'w teulu neu gymorth arall. Digwyddodd hyn ar gyfer dros 50 y cant o gyfranogwyr y prosiect ac roedd yn arbennig o amlwg yn ystod gweithgareddau'r ail flwyddyn. Ni ddylid dibrisio'r hyn a gyflawnodd y bobl ifanc hyn oherwydd nid oedd yr un ohonynt bron wedi mynychu unrhyw weithgaredd prif ffrwd ar eu pen eu hunain o'r blaen; gan ddangos lefel uchel iawn o sgiliau annibynnol a ddysgwyd mewn amser byr. Mae'r gwerthuswyr yn rhagweld y bydd mwy o bobl ifanc efallai'n cyflawni canlyniadau tebyg, ond na ellir mesur hyn oherwydd bod y gweithgareddau hyn yn digwydd y tu allan i gymorth Barnardo's.

Ni waeth pa elfennau o'r prosiect a gymrodd y bobl ifanc ran ynddynt, mae'n glir bod y sgiliau annibynnol a ddysgwyd hefyd yn cael eu rhoi ar waith yn eu bywydau beunyddiol. Disgrifiodd y bobl ifanc ba mor dda oedd y teimlad o allu rhoi'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt ar waith – drwy gyflawni tasgau yn y cartref fel gosod y bwrdd, golchi llestri a thacluso; roeddent yn cynnal eu sgiliau hylendid personol ac yn gwneud y siopa drwy wneud dewisiadau, defnyddio arian a defnyddio gwybodaeth am fyw'n iach.

### **Crynodeb o ganlyniad 1**

Er y gellir asesu canlyniad 1 drwy'r tri dangosydd cysylltiedig, mae ganddo dair elfen benodol: rhwydweithiau cymdeithasol gwell, teimlo'n llai ynysig a mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Dengys yr asesiad o bob dangosydd fod y prosiect yn amlwg wedi gwella rhwydweithiau cymdeithasol a lleihau teimladau ynysig, gyda'r bobl ifanc yn nodi'n glir bod ganddynt yn awr ffrindiau ac yn teimlo y gallent wneud mwy drostynt eu hunain. Dywedodd un rhiant yn gryno sut oedd llawer o'r rhieni'n teimlo:

'Mae gan fy mab rywbeth i'w wneud a rhywle i fynd nawr. O'r blaen, roedd yn aros yn ei ystafell. Nid oedd [ganddo] ddim byd.'

Yn amlwg teimlai'r teuluoedd fod y prosiect wedi cynnig ffordd newydd i'r bobl ifanc gael ennill sgiliau a gwneud ffrindiau ac, o'r blaen, bod eu bywydau'n wag unwaith y daethant adref o'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywedodd rai rhieni fod gweithgareddau'r grŵp wedi rhoi rheswm i'w plant dros godi yn y bore yn ystod y gwyliau; a dywedodd holl aelodau'r teulu eu bod yn gwyllo eu person ifanc yn cael ffrindiau am y tro cyntaf yn eu bywyd.

Nid yw'r tri dangosydd ar gyfer y canlyniad hwn yn rhai lle mae modd rhoi sylw dyledus i "ddewis a rheolaeth dros fywyd". Mae'r gwaith unigol a grŵp wedi arwain at fwy o ddewis a rheolaeth i'r bobl ifanc dros eu bywydau o ddydd i ddydd na ellir ei gymryd yn ganiataol na'i ddiystyru. Yn y gwerthuso grŵp, o ran y canlyniad a gyflawnwyd fwyaf o'r prosiect, rhoddwyd sgôr cydradd gyntaf i'r canlyniadau 'Mae gen i fwy o ddewis ynghylch fy nyfodol' ac 'Rwy'n teimlo fod pobl wedi gwrandao arnaf a bod gen i reolaeth dros yr hyn a wnaf', o safbwynt y bobl ifanc a'r safbwynt pwysicaf. Eglurodd y bobl ifanc eu bod yn teimlo y gallent siarad yn well ag oedolion yn eu bywydau'n gyffredinol ac, felly, bod ganddynt fwy o hyder i ddweud eu dweud a rhoi barn. Dywedodd y bobl ifanc fod hyn yn bwysicach iddynt na chyflawni gweithgareddau newydd. Mae hyn yn eithriadol bwysig o ran cael rheolaeth a gwneud dewisiadau ond ni chaiff ei adlewyrchu yn y niferoedd targed. Mae'r dyfyniad isod yn dangos sut y gall dewis a rheolaeth effeithio ar fywyd person ifanc:

'Rwyf wastad wedi mynd i'r cadetiaid ond ers bod gyda Barnardo's rwyf yn gwneud yn dda iawn yno. Rwy'n siarad mwy, yn ymuno mewn pethau ac yn teimlo y gallaf wneud mwy. Mae'n wych, rydyn ni'n mynd i wersylla. Hedfan. Hedfan gleider ac rwy'n rhan ohono bellach.'

Hefyd, ers blwyddyn 1, pan oedd y bobl ifanc yn rhan o'r broses recriwtio staff, dechreuodd y bobl ifanc gymryd rhan mewn fforymau gwneud penderfyniadau a dod yn fwy ymwybodol o wahanol ffyrdd o ymarfer dewis a rheolaeth. O ddeall pleidiau gwleidyddol a phleidleisio drwy waith a wnaed ym mlwyddyn 2, i gymryd rhan mewn fforymau a chynadleddau cenedlaethol, mae'r prosiect wedi cynorthwyo pobl ifanc i ddechrau gwneud y cysylltiadau rhwng dewis a rheolaeth gydag opsiynau yn eu bywydau, ond hefyd sut y mae hynny'n cysylltu i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae datblygu grŵp cyfranogi a chael eu cynrychioli ar fforwm ieuentid yr awdurdod lleol wedi helpu'r bobl ifanc i weld a gwneud y cysylltiadau hyn. Nod rhai o'r dulliau gwerthuso a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, a'r bwriad o ledaenu'r adroddiad hwn, yw cyfrannu at roi mwy o ddewis a rheolaeth i'r bobl ifanc dros eu bywydau.

I gloi, er na chafodd y targedau rhifol ar gyfer canlyniad 1 eu cwrdd, mae'r canlyniad wedi'i gyflawni o ran ansawdd y gwaith sydd wedi'i wneud. Yn ôl y bobl ifanc, dewis a rheolaeth yw'r pethau pwysicaf a ddysgwyd ganddynt, er nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y dangosyddion. Mae'r gwaith cysylltu cymunedol grŵp ac unigol wedi darparu sgiliau a phrofiadau bywyd hynod bwysig i'r cyfranogwyr, ac mae'r effaith ar brofiad bywyd, hyder a dyheadau wedi bod yn ddwfn.

## **CANLYNIAD ASESU 2: BYDD GRWPYAU CYMUNEDOL YN FWY CYNHWYSOL AC YN FWY CROESAWUS I GRŴP EHANGACH O BOBL IFANC ANABL**

Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â'r gwaith meithrin gallu gyda grwpiau cymunedol a wnaed gan wasanaeth Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent. Mae gan y canlyniad hwn dri gwahanol ddangosydd:

1. Un sy'n trafod y gwaith cysylltu cymunedol a wnaeth y prosiect gyda'r bobl ifanc (adeiladu ar y data yng nghanlyniad 1, dangosyddion 1 a 3)
2. Un sy'n trafod y gwaith meithrin gallu a wnaeth y prosiect gyda grwpiau, cynullfannau ac adnoddau cymunedol
3. Un sy'n dadansoddi llwyddiant ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y prosiect Cysylltu Cymunedol.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i asesu'r canlyniad hwn yn gymysgedd o ddata sylfaenol a gasglwyd gan y gwerthuswyr a data monitro ac adborth wedi'i gasglu gan y gwasanaeth ac a gasglwyd ac a ddadansoddiwyd gan y gwerthuswr. Mae'n cynnwys data o gynlluniau gweithredu personol y bobl ifanc a ymunodd â grwpiau prif ffrwd, o ffurflenni gwerthuso cyrsiau hyfforddi, o ffurflenni gwerthuso gan grwpiau cymunedol, ac o arsylwi staff.

Er bod y canlyniad hwn yn nodi 'grwpiau cymunedol', mae'r gwerthuswyr wedi cynnwys adnoddau cymunedol lle gall pobl ddod at ei gilydd i gymdeithasu yn y sectorau statudol, gwirfoddol neu breifat. Mae gallu cyfrannu at fywyd y gymuned drwy, er enghraifft, gael paned o de gyda ffrind mewn caffi, defnyddio'r ganolfan hamdden neu fynd i'r sinema, yr un mor bwysig â chael hobi mewn grŵp sefydledig.

### **Dangosydd 1: Nifer y grwpiau cymunedol sy'n adrodd bod mwy o bobl ifanc anabl yn mynychu eu gweithgareddau (30-50 o grwpiau)**

Gellir ond trafod y dangosydd hwn o ran y cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n adrodd eu bod wedi mynychu gweithgareddau cymunedol prif ffrwd oherwydd nid yw'r data ar gael gan y grwpiau cymunedol eu hunain. Mae'r dangosydd hwn yn adeiladu ar y wybodaeth am gysylltu cymunedol a roddir yng nghanlyniad 1. Er bod pobl ifanc wedi dechrau ymuno â grwpiau cymunedol a defnyddio cynullfannau cymunedol yn y flwyddyn gyntaf, mae'r adroddiad gwerthuso cynnydd diwedd blwyddyn yn nodi y gallai'r gwaith cysylltu cymunedol gael pwyslais cryfach o fewn gweithgareddau'r prosiect yn gyffredinol. Ym mlwyddyn 2 roedd cynnydd sylweddol yn y gweithgareddau cysylltu cymunedol, gyda chyfanswm o 33 o grwpiau bellach yn cynnwys pobl ifanc anabl, o ganlyniad i waith y prosiect.

- 8 cynullfan cymunedol i grwpiau anffurfiol: Sinema Brynmawr, Parc Gardd Les Terence, caffi a siop gacennau, canolfan hamdden, parc (lle mae pobl ifanc yn ymgynnull), campfa leol, bwyty Brewers Fayre a McDonalds, archfarchnad gyda chaffi
- 4 canolfan ddysgu gymunedol: Canolfan Ddysgu Gweithredol Glynebwy, Canolfan Ddysgu Gweithredol Brynmawr, Stiwt Glynebwy a Chanolfan Gymunedol Winchestown
- 1 atyniad lleol: Big Pit
- 3 sefydliad adnoddau cymunedol: gorsaf radio gymunedol, grŵp golygyddol gwasanaeth ieuenctid, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent

- 4 clwb ieuenctid: Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent, dau glwb prif ffrwd statudol a grŵp ieuenctid eglwysig
- 2 grŵp cerdd: côr a gwersi gitâr
- 5 clwb chwaraeon: dawnsio stryd, tenis, clwb trampolîn, merlota a gymnasteg
- 2 gwrs addysg gymunedol: addurno cacennau a chrochenwaith
- 2 celfyddydau perfformio: Kidz R Us, grŵp theatr Encore
- 2 ddigwyddiad cymunedol: arddangosfa tân gwylt leol a marchnad Nadolig.

Mae'r amrywiaeth o grwpiau cymunedol, cynullfannau a digwyddiadau y mae'r bobl ifanc yn eu mynychu'n dangos mai dull person-ganolog yn hytrach na dull mwy fformiwlaig a ddefnyddiwyd. Dylid nodi bod y bobl ifanc yn dewis mynychu digwyddiadau a chynullfannau cymunedol gyda'i gilydd ac mae'r prosiect yn benodol wedi galluogi pobl ifanc i wneud trefniadau i weld ei gilydd a theithio'n annibynnol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau a'r adnoddau cymunedol hyn yn cael eu defnyddio gan y bobl ifanc sy'n teithio iddynt ar eu pen eu hunain ac yn ddigymorth. Mae Cysylltu Cymunedol Barnardo's Cymru wedi gweithio gyda rhai o'r grwpiau a'r cynullfannau hyn i feithrin eu gallu i groesawu pobl ifanc anabl, ond nid gyda phob un ohonynt. Mae'r dangosydd hwn dros ei darged o 13 y cant, a gallai gynyddu eto oherwydd bydd y prosiect yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a phobl ifanc tan Awst 2015.

## **Dangosydd 2: Mae grwpiau cymunedol yn dweud eu bod yn teimlo y medrant groesawu pobl ifanc anabl yn well i'w cynullfannau ar ôl mewnbwn gan y prosiect (40-50 o grwpiau)**

Mae'r prosiect Cysylltu Cymunedol wedi gweithio'n uniongyrchol ag amrywiaeth o gynullfannau a grwpiau staff i gynyddu eu sgiliau i groesawu pobl ifanc anabl. Er bod hyn yn cyfeirio'n rhannol at y grwpiau sy'n adrodd mwy o bobl ifanc anabl yn mynychu eu gweithgareddau, mae hefyd yn cynnwys hyfforddiant a gwaith meithrin gallu arall a wnaeth y prosiect i gefnogi cynullfannau cymunedol croesawus. Nifer darged y dangosydd oedd meithrin gallu gyda 40-50 o grwpiau neu gynullfannau ac, felly, llwyddwyd i ragori ar y dangosydd hwn o 35 y cant (14 o grwpiau), gyda chyfanswm o 54 o grwpiau cymunedol yn dweud eu bod yn teimlo eu bod bellach yn gallu croesawu pobl ifanc anabl yn well. Dadansoddir hyn fel a ganlyn:

- 15 o adnoddau cymunedol: Canolfan Deuluol Winchestown, y Ganolfan Blant Integredig, Stiwt Glynebwy, Parc Bryn Bach, y Festival Park, Big Pit, Gorsaf Dân, Stadiwm y Mileniwm, canolfan waith, gorsaf radio, archfarchnad leol, Canolfan Ddysgu Gweithredol Glynebwy, Canolfan Ddysgu Gweithredol Brynmawr, Stiwt Glynebwy a Chanolfan Gymunedol Winchestown
- 8 cynullfan cymunedol prif ffrwd: caffi a siop gacennau, Parc Gardd Les Terence, sinema, canolfan hamdden, parc (lle mae pobl ifanc yn ymgynnull), campfa leol, bwyty Brewers Fayre a McDonalds
- 14 clwb chwaraeon: trampolîn, dawnsio stryd, tenis, merlota, campfa a 9 o'r rhaglen arweinwyr ifanc
- 2 glwb cerdd: côr a gwersi gitâr
- 2 gwrs addysg gymunedol: crochenwaith ac addurno cacennau
- 9 clwb ieuenctid: y fforwm ieuenctid, dau glwb ieuenctid integredig, clwb ieuenctid eglwysig, 5 clwb drwy roi hyfforddiant ffurfiol i weithwyr ieuenctid
- 2 celfyddydau perfformio: Kidz R Us, grŵp theatr Encore
- 2 ddigwyddiad cymunedol: arddangosfa tân gwylt leol a marchnad Nadolig.



Mae'r prosiect wedi galluogi ystod eang o gynullfannau, adnoddau a grwpiau cymunedol i fod yn fwy croesawus ac nid yn unig wedi cynnwys, ond wedi cyrraedd y tu hwnt i gyrsiau, grwpiau cymunedol a grwpiau ieuentid. Defnyddiodd y prosiect dri dull i gynorthwyo'r grwpiau cymunedol i groesawu pobl ifanc anabl:

1. Mae pobl ifanc unigol wedi cael eu cynorthwyo i fynychu grŵp o'u dewis nhw. Mae gweithwyr cymorth wedi cynorthwyo'r bobl ifanc i ddysgu sut i deithio'n ddi-gymorth, wedi cynorthwyo'r grŵp neu'r cynullfan i ddeall unrhyw anghenion penodol sydd gan y person ifanc ac wedi magu hyder yn y person ifanc ac yn y cynullfan neu'r grŵp fel y medrant barhau i fynychu'n ddi-gymorth.
2. Drwy ddarparu hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o anabledd a sgiliau cynhwysiant i grwpiau staff a gwirfoddolwyr ifanc.
3. Drwy gefnogi'r bobl ifanc i ddod o hyd i grŵp o'u dewis a'u hannog a'u cefnogi'n weithredol i roi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae'r negeseuon gan y grwpiau a'r cynullfannau y bu'r prosiect yn gweithio gyda nhw'n cadarnhau eu bod yn teimlo y medrant groesawu pobl ifanc anabl yn well a dangosir hyn gan y dystiolaeth o bobl ifanc anabl yn ymuno â'r grwpiau ac yn ymweld â'r cynullfannau hyn. Mae'r prosiect wedi defnyddio nifer o ddulliau creadigol i feithrin gallu'r staff mewn cynullfannau prif ffrwd, rhai ohonynt drwy gyfarfod grwpiau o bobl ifanc, rhai drwy ddarparu hyfforddiant ffurfiol yn uniongyrchol a rhai drwy feithrin gallu staff unigol i gefnogi pobl ifanc unigol a phenodol.

### **Dangosydd 3: Nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt ymwybyddiaeth well o anabledd ar ôl derbyn hyfforddiant a drefnwyd gan y prosiect (200)**

Mae'r prosiect wedi darparu sesiynau hyfforddi mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r prosiect wedi darparu hyfforddiant ffurfiol ar ymwybyddiaeth o anabledd i bobl ifanc a mudiadau; hyfforddiant ffurfiol ar gysylltu cymunedol i weithwyr ieuentid, hyfforddiant ffurfiol ar anabledd, rhyw a pherthnasoedd i weithwyr traws-sector mewn partneriaeth â'r gymdeithas cynllunio teulu; a hyfforddiant anffurfiol i dimau staff mewn lleoliadau cymorth un-i-un a chynullfannau ar gyfer gweithgareddau grŵp.

Mae'r gwasanaeth wedi darparu cyrsiau hyfforddi ffurfiol i gyfanswm o 124 o bobl ifanc i annog cyd-gymorth rhwng pobl ifanc, 17 o weithwyr ieuentid a 15 o weithwyr traws-sector: 156 o bobl i gyd. Yn ogystal, derbyniodd 58 (36 ym mlwyddyn 1 a 22 ym mlwyddyn 2) o aelodau staff hyfforddiant anffurfiol a bydd o leiaf pedwar sefydliad arall yn derbyn hyfforddiant anffurfiol cyn i'r prosiect orffen, gan fynd â chyfanswm y bobl a dderbyniodd hyfforddiant anffurfiol i 62 o leiaf. Ni waeth pa fath o hyfforddiant a dderbyniwyd, ac a yw'n cynnwys yr hyfforddiant anffurfiol sydd eto i ddod, bydd cyfanswm y bobl a ddywedodd fod ganddynt ymwybyddiaeth well o anabledd yn 218. Llwyddwyd i ragori ar y targed ar gyfer y dangosydd hwn o tua naw y cant.

#### *Dadansoddiad o'r data hyfforddiant anffurfiol*

Mae'r hyfforddiant anffurfiol wedi bod yn ddatblygol i sicrhau ei fod yn cael ei deilwrio i ddysgu'r sefydliad neu'r cynullfan dan sylw ac yn gefnogol i'r person ifanc penodol. Mae'n wybyddus mai un o'r trafferthion gyda hyfforddiant ffurfiol yw y gall fod yn anodd gweithredu'r dysgu o fewn arferion gwaith pob dydd. Felly, er mwyn hybu cyflogaeth gyda chefnogaeth a manau cynhwysol, gall fod yn fwy

effeithiol darparu hyfforddiant gwaith-benodol seiliedig ar dasgau sy'n berthnasol i anghenion cymorth penodol unigolyn er mwyn cefnogi pobl ifanc unigol yn effeithiol i ymuno â grwpiau cymunedol, defnyddio cynullfannau cymunedol neu gyflawni lleoliadau gwaith.

*Data a dadansoddiad o'r hyfforddiant ffurfiol*

Derbyniodd 156 o bobl hyfforddiant ffurfiol, ac o'r rhain roedd 123 wedi cwblhau ffurflenni gwerthuso manwl a 33 wedi darparu gwerthuso anffurfiol neu seiliedig ar weithgaredd.

Nod yr hyfforddiant a roddwyd i wirfoddolwyr ifanc oedd codi eu hymwybyddiaeth o hawliau anabledd a galluogi pobl ifanc sy'n gwirfoddoli mewn clybiau chwaraeon pobl ifanc i gefnogi cyfoedion anabl. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r holiaduron gwerthuso a ddosbarthwyd ar ddiwedd yr hyfforddiant, er na atebodd bawb bob un o'r cwestiynau.

<b>Cwestiwn am yr hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd i arweinwyr ifanc</b>	<b>Ie</b>	<b>Na</b>	<b>Dim ateb</b>
A fydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol yn eich rolau gwirfoddoli?	104	3	1
Ydy'r hyfforddiant wedi eich gwneud yn fwy ymwybodol o faterion anabledd a chynhwysiant?	98	3	7
Ydych yn teimlo y gallwch groesawu pobl ifanc ag anabledd yn well i fynychu gweithgareddau a grwpiau?	96	2	10
A wnaeth y cwrs ddysgu'r sgiliau angenrheidiol fel y gallwch hwyluso cynhwysiant yn eich grwpiau a gweithgareddau?	86	4	18

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn gan y 33 o bobl ifanc a gyflawnodd y gwerthuso anffurfiol. Roeddent yn dweud y byddai'r hyfforddiant yn eu helpu nid yn unig i wybod sut i gefnogi pobl ifanc anabl ond hefyd sut i'w cyflwyno i grŵp a sicrhau eu bod yn teimlo bod y grŵp yn groesawus ac yn eu cynnwys.

Derbyniodd 17 o weithwyr ieuenctid hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth anabledd a chysylltu cymunedol. Nid oedd gan leiafrif o gyfranogwyr y cwrs unrhyw wybodaeth flaenorol am faterion anabledd ac ychwaith heb weithio gyda phobl anabl (cydweithwyr na phobl ifanc) o'r blaen. Teimlent yn unfrydol fod y cwrs wedi rhoi'r sgiliau ymarferol iddynt weithredu cynhwysiant a theimlai 14 fod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o anabledd a chynhwysiant. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yr hyfforddiant wedi dysgu sut i gynnig cefnogaeth bositif ac wedi rhoi mwy o hyder iddynt gyda'r sgiliau oedd ganddynt eisoes.

Dywedodd y 15 o weithwyr proffesiynol a dderbyniodd hyfforddiant addysg rhyw a pherthnasoedd fod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol, fel y gwelwn o'r tabl isod. Yn ogystal, teimlai fwyafrif sylweddol y byddai'r hyfforddiant yn gweithio tuag at holl ganlyniadau'r prosiect unwaith y byddent yn ei roi ar waith.

<b>Cwestiwn am yr hyfforddiant rhyw a pherthnasoedd positif</b>	<b>Ie</b>	<b>Na</b>	<b>Dim ateb</b>
A fydd yr hyfforddiant yn eich helpu yn eich gwaith?	14	1	
Ydy'r hyfforddiant wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth o sut i gefnogi pobl ifanc anabl mewn perthnasoedd positif?	14		1
Ydy'r cwrs wedi darparu'r hyfforddiant y credwch sydd ei angen arnoch i gefnogi pobl ifanc anabl a rhieni gyda pherthnasoedd positif?	14		1
A fydd yr hyfforddiant yn gweithio tuag at wella hyder pobl ifanc?	13	2	
A fydd yr hyfforddiant yn helpu i ehangu rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc?	11	4	

### **Crynodeb o ganlyniad 2**

Mae'r data rhifol a'r data ansoddol yn dangos y llwyddwyd i ragori ar ganlyniad 2. Mae staff y prosiect wedi gweithio ag ystod eang o grwpiau a chynullfannau cymunedol a, drwy gymysgedd o hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol, maen nhw wedi gwella ymwybyddiaeth o anabledd, wedi cynorthwyo cynullfannau i fod yn fwy cefnogol a chroesawus i bobl ifanc anabl, nid yn unig fel defnyddwyr yr adnodd penodol hwnnw ond hefyd mewn timau staff drwy gyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith. Ymddengys bod lefel y gwaith yn y gymuned yn rhagorol.

### CANLYNIAD ASESU 3: BYDD GAN BOBL IFANC FWY O HUNANHYDER A SGILIAU CYMDEITHASOL GWELL

Yn unfrydol, y canlyniad hwn oedd y pwysicaf i'r bobl ifanc ac i'w rhieni a gofynnodd y bobl ifanc yn benodol i'r adroddiad hwn bwysleisio'r effaith a gafodd y prosiect arnynt o ran mwy o hyder a chael ffrindiau, gyda'r ddau beth wedi cynyddu eu sgiliau cymdeithasol yn aruthrol. Mae'r data ar gyfer yr adran hon yn cynnwys data o gynnal grwpiau ffocws gwerthuso gyda chyfranogwyr, grwpiau ffocws gyda brodyr / chwiorydd a rhieni, o gasglu a dadansoddi cynlluniau gweithredu personol, o fonitro'r prosiect ac o arsylwi staff.

#### Dangosydd 1: Nifer y bobl ifanc sy'n dweud bod ganddynt fwy o hyder (70-100)

Roedd gwella hyder yn bwysig iawn i bob un o'r bobl ifanc. Roedd 38 o bobl ifanc wedi cwblhau cynllun gweithredu a phob un ohonynt wedi dewis mwy o hyder fel un o'r canlyniadau yr oeddent eisiau gweithio tuag ato. Dengys y tabl isod pa mor bell y daethant, ym marn y bobl ifanc eu hunain. Dewisodd y bobl ifanc ba ganlyniadau yr oeddent eisiau gweithio tuag atynt drwy'r prosiect gan roi sgôr rhwng 1 a 5 i'w hunain o ran lefel eu hyder. Roedd y sgôr hwn yn cael ei adolygu gyda'r bobl ifanc bob chwarter ac yn cael ei ail-werthuso ganddynt. Os oeddent yn teimlo bod eu hyder wedi cynyddu, byddent yn cynyddu'r sgôr a roesant yn wreiddiol.

Cynnydd yn y sgôr	Nifer y bobl ifanc
Yn newydd i'r prosiect felly dim adolygiad wedi'i wneud eto	7
Dim cynnydd mewn sgôr	2
Cynnydd o 1 pwynt	6
Cynnydd o 2 bwynt	16
Cynnydd o 3 phwynt	7

Mae magu mwy o hyder wedi bod wrth galon y gweithgareddau grŵp a'r cymorth un-i-un a gynigiwyd gan y prosiect; gan gyfrannu at agendâu byw'n iach, perthnasoedd personol, gwaith, chwaraeon risg, rheoli arian ac agweddau eraill ar fywyd. Yn ogystal, cefnogodd y prosiect un person ifanc i fynychu cwrs magu hyder ac i ennill achrediad gan Agored Cymru. Mae hefyd yn glir o'r data bod mwy o hyder yn gallu trawsnewid bywydau. Dengys y data fod y bobl ifanc wedi ennill hyder ar lefel lawer dyfnach ac yn dweud nad oes arnynt ofn, er enghraifft, cwrdd â phobl newydd, rhoi cynnig ar rywbeth newydd, ymweld â rhywle newydd neu fod yn annibynnol. Yn greiddiol, mae llawer o'r dangosyddion eraill yn yr adroddiad hwn yn dibynnu ar yr un dangosydd hwn o ennill hyder, yn enwedig o ran canlyniad 1.

Mewn rhai grwpiau ffocws, roedd y bobl ifanc yn frwd iawn wrth annog ei gilydd i siarad am y cynnydd yn eu hyder. Mae'r sylw isod yn dangos yr effaith a gafodd hyn ar gyfranogwyr y prosiect:

'Rydw i'n dysgu sut i ddweud fy meddwl nawr. Rwyf heb gyrraedd yno eto. Ond mae pethau'n well ac rydw i'n gweithio arno. Nid copio pawb ydw i nawr.'

Cafodd y gwerthuswyr wybod am lawer o hanesion ynghylch beth oedd mwy o hyder yn ei olygu i'r bobl ifanc. Roeddent yn cynnwys gallu siarad allan mewn grŵp mawr, gallu mynd i siop a phrynu pethau, tasgau yn y cartref fel coginio, peidio bod ag ofn dysgu pethau newydd, goresgyn eu hofn ynghylch chwaraeon risg, gallu cael ffrindiau.

Yn ogystal, siaradodd aelodau eraill o'u teulu am y cynnydd yn eu hyder a'r newidiadau positif a welsant. Disgrifiodd frodyr / chwiorydd bethau oedd y cyfranogwyr bellach yn eu gwneud nad oeddent wedi eu gwneud o'r blaen, fel helpu i goginio a glanhau, bod yn fwy siaradus yn gyffredinol yn y teulu a chael yr hyder i ddewis gwneud pethau yn hytrach na chael eu perswadio. Roedd rhieni hefyd yn llawn canmoliaeth i'r ffordd yr oedd y prosiect wedi cynorthwyo eu plant i fagu mwy o hyder. Soniwyd am sefyllfaoedd fel 'gallu gadael X ei hun i wneud ei beth ei hun' ac roeddent wedi eu synnu gyda'r pethau a lwyddodd eu plant i'w cyflawni oherwydd bod ganddynt fwy o hyder.

Mae'r data ansoddol yn dangos dysgu pwysig o ran sut y mae'r bobl ifanc wedi magu hyder. Dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi ennill hyder drwy ddysgu mewn tair ffordd wahanol:

1. Drwy fod yn fwy ymwybodol ohonynt eu hunain drwy ddysgu mwy amdanynt eu hunain ac am bethau fel hylendid personol, byw'n iach neu ddysgu gwranddo.
2. Drwy gyflawni gweithgareddau grŵp a rhoi cynnig ar sgiliau newydd lle oedd angen ymdrech neu risg gorfforol.
3. Drwy weithgareddau creadigol a arweiniodd at ganlyniad gweladwy (e.e. coginio, dyddiaduron digidol, ysgrifennu caneuon).

Er bod ansawdd gwaith y prosiect o ran magu hyder yn eithriadol uchel, nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y data rhifol. Y nifer darged o ran pobl ifanc yn adrodd mwy o hyder oedd 70-100. Mae'r prosiect hyd yma wedi gweithio gyda 50 o bobl ifanc. Dim ond 38 ohonynt oedd wedi darparu data cynllun gweithredu ac o'r rhain roedd 29 yn dweud bod ganddynt fwy o hyder. Er nad yw'r cynlluniau gweithredu wedi cael eu hadolygu eto ac mae rhai o'r bobl ifanc eto i'w cwblhau, mae data arall o'r prosiect yn awgrymu bod tua 40 o'r bobl ifanc yn adrodd bod ganddynt fwy o hyder. Yn rhifol, mae'r prosiect wedi cwrdd yn rhannol â'r targed hwn o 57 y cant. Fodd bynnag, o ystyried cryfder y data ansoddol a'r ffaith y bydd cynlluniau adolygu'n cael eu hadolygu a'u cwblhau ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, mae'r gwerthuswyr yn ffyddiog y bydd bron bob un o'r bobl ifanc yn adrodd yn bositif ar gyfer y dangosydd hwn ac er efallai y bydd dal ond yn cael ei gwrdd yn rhannol, y bydd y ganran yn llawer uwch.

## **Dangosydd 2: Pobl ifanc yn dangos sgiliau cymdeithasol gwell (70-100)**

Y dangosydd hwn oedd yr ail bwysicaf i'r bobl ifanc a'u rhieni, ac roedd y bobl ifanc eisiau i'r adroddiad hwn bwysleisio'r effaith arnynt o gael ffrindiau a sgiliau cymdeithasol. I lawer o'r cyfranogwyr, roedd cael ffrind y tu allan i'r ysgol yn brofiad hollol newydd. Ychwaith, 'doedd llawer o'r cyfranogwyr erioed wedi cael ffrind ysgol yn eu cartref o'r blaen, erioed wedi aros oddi cartref dros nos nac ychwaith wedi mynd i adnodd cymunedol gyda ffrind. O ystyried bod gymaint o'r cyfranogwyr mor ynysig cyn y prosiect, nid yw'n syndod bod gwneud ffrindiau wedi cael effaith anferth ar eu bywydau ac wedi cyfrannu at fagu mwy o hyder a rhoi'r impetws iddynt ennill mwy o annibyniaeth. Disgrifiodd y bobl ifanc sut oeddent wedi gwneud ffrindiau â'i gilydd, ond hefyd dysgu'r sgiliau i wneud ffrindiau newydd yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Yn y cynlluniau gweithredu, dewisodd 36 o'r 38 o bobl ifanc wella rhwydweithiau cymdeithasol, gwella sgiliau cymdeithasol neu wella'u perthynas â'u cyfoedion fel amcanion personol i weithio tuag atynt. Dengys y tabl isod pa mor beth y daethant ym marn pob person ifanc.

Cynnydd yn y sgôr	Nifer y bobl ifanc
Yn newydd i'r prosiect felly dim sgôr adolygu eto	6
Dim cynnydd na lleihad	1
Cynnydd o 1 pwynt	7
Cynnydd o 2 bwynt	13
Cynnydd o 3 phwynt	7
Cynnydd o 4 pwynt	2

Yn y grwpiau ffocws roedd yn glir bod y bobl ifanc yn teimlo bod ganddynt sgiliau cymdeithasol gwell, p'un ai oeddent wedi gwneud ffrindiau newydd neu beidio. Roedd gallu a chael yr hyder i fod yn gymdeithasol yn bwysig iawn ac nid oedd y bobl ifanc na wnaethant ffrindiau'n poeni llawer am hyn oherwydd eu bod yn teimlo y gallent fod yn fwy cymdeithasol yn gyffredinol. Roedd y sgiliau cymdeithasol y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn cynnwys delio â nerfau, gwaith tîm, cyfathrebu, sut i wneud ffrindiau a gwrando. Disgrifiwyd lleoliadau gwaith, gwirfoddoli a mynychu digwyddiadau cymunedol fel pethau effeithiol i ennill sgiliau cymdeithasol yn fwy cyffredinol, ar wahân i wneud ffrindiau.

Mae'r data ansoddol yn awgrymu'n gwbl ddiamwys bod y dangosydd hwn yn eithriadol bwysig ac wedi'i gwrdd ar gyfer y bobl ifanc yn y prosiect. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y niferoedd targed. Dengys data o'r cynlluniau gweithredu fod 29 o bobl ifanc wedi dangos sgiliau cymdeithasol gwell gyda data monitro arall yn awgrymu bod y cyfanswm yn nes at 38, felly ni chafodd y targed hwn ond ei gwrdd yn rhannol o 54 y cant. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd mwy o gynlluniau gweithredu'n cael eu hadolygu ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn ac y bydd y prosiect yn gweithio gyda mwy o gyfranogwyr, felly mae'n debygol iawn y bydd y ganran yn cynyddu.

### Crynodeb o ganlyniad 3

Roedd gwella hyder ac ennill sgiliau cymdeithasol yn ddau o'r pethau yr oedd pobl ifanc eisiau eu pwysleisio o ran yr effaith gadarnhaol a gafodd y prosiect arnynt. Dyma'r ddau beth hefyd y teimlai rhieni fod y bobl ifanc wedi'u cyflawni fwyaf. Er nad yw'r data rhifol yn adlewyrchu'r lefel yma o ganmoliaeth yn llwyr, mae'r data ansoddol yn awgrymu bod gwaith y prosiect wedi newid bywyd y bobl ifanc oherwydd bod ganddynt bellach fwy o hyder a mwy o ffrindiau a sgiliau cymdeithasol yn gyffredinol.

## **CANLYNIAD ASESU 4: BYDD DYSGU O'R PROSIECT YN GOLEUO DARPARIAETH WELL O WASANAETHAU GAN Y SECTORAU STATUDOL A GWIRFODDOL AC YN HELPŪ I DDATBLYGU'R MODELŪ SY'N GWEITHIO ORAU I GEFNOGI POBL IFANC ANABL WRTH IDDYNT DYFU'N OEDOLION**

### **Dangosydd 1: Cwblhau a chylchredeg adroddiad gwerthuso blynyddol**

Cafodd Wasanaeth Cysylltu Cymunedol Barnardo's Cymru ym Mlaenau Gwent ei gefnogi i gasglu data monitro, ers dechrau'r prosiect, gan Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's Cymru. Ym mlwyddyn 1, cynhyrchodd Barnardo's Cymru adroddiad cynnydd a'i ddosbarthu i sefydliadau partner Cysylltu Cymunedol Blaenau Gwent, a hefyd i sefydliadau partner rhanbarthol a chenedlaethol eraill oedd â diddordeb yn y gwaith. Roedd yr adroddiad cynnydd ar y flwyddyn gyntaf hefyd ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg o wefan Barnardo's Cymru. Ar ddiwedd blwyddyn 1, cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb a rhoddwyd cyflwyniad ar y gwerthuso a chynnydd y prosiect i grŵp llywio'r prosiect. Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol hefyd yn cael ei gylchredeg i bartneriaid y prosiect ac i sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill a bydd ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg oddi ar wefannau Barnardo's Cymru a C.A.R.P. Collaborations. Bydd y Gwasanaeth Cysylltu Cymunedol yn cynnal cynhadledd ar ddiwedd y prosiect a bydd y gwerthuswyr yn rhoi cyflwyniad ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect. Yn ogystal, mae'r gwerthuswyr yn gweithio mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru i ystyried sut y gellir rhoi cyflwyniadau gyda'r bobl ifanc a gymrodd ran yn y prosiect mewn fforymau polisi cenedlaethol. Mae'r gweithgareddau hyn yn fwy na chylchredeg adroddiad yn unig, ac felly llwyddwyd i ragori ar y dangosydd hwn.

### **Dangosydd 2: Ymyriadau gan y gwasanaeth i ddileu'r rhwystrau i gyfranogiad a chynhwysiant pobl ifanc mewn gweithgareddau cymunedol ac i wella gwasanaethau cymorth (70-100 o ymyriadau)**

Mae'r prosiect wedi cyflawni ymyriadau hirdymor ac unigol gyda 50 o bobl ifanc, a chynlluniau gweithredu personol gan 39 ohonynt (dechreuodd rai o'r bobl ifanc hyn gyda'r gwasanaeth ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn). Derbyniwyd atgyfeiriadau ar gyfer 11 o bobl ifanc eraill a ddewisodd beidio â chymryd rhan yn y prosiect ar ôl derbyn gwybodaeth ac ymweliad cartref ymlaen llaw. Drwy ei hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, mae'r prosiect wedi gweithio gyda chyfanswm o 217 o bobl, gan gynnwys pobl ifanc corfforol abl, staff mewn grwpiau ac adnoddau cymunedol, a gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau prif ffrwd statudol. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 267 o ymyriadau, sydd ymhell dros y targed o 70 o ymyriadau.

Hefyd, mae'r prosiect wedi sicrhau cyswllt rheolaidd â darparwyr gwasanaethau lleol eraill drwy grŵp llywio'r prosiect. Mae'r grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth ieuencid, iechyd, Gyrfa Cymru, gwasanaethau eiriolaeth, Teuluoedd yn Gyntaf a'r sector gwirfoddol, sydd i gyd yn mynychu cyfarfod pob deufis. Mae'r dull hwn wedi cefnogi datblygiad y prosiect ac wedi hwyluso datblygu perthynas a gweithio'n gadarnhaol mewn partneriaeth. Llwyddwyd felly i ragori ar y dangosydd hwn.

#### **Canlyniad asesu 4**

Llwyddwyd i ragori ar y ddau ddangosydd ar gyfer canlyniad 4. Mae'r prosiect wedi llwyddo i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ac wedi datblygu arferion da ac arloesol sydd o ansawdd a diddordeb i ddarparwyr gwasanaeth a sectorau eraill ar lefel genedlaethol.



## **ADRAN 6: CANLYNIADAU ANNISGWYL AC ARFERION DA A NODWYD**

Er bod gan y prosiect ganlyniadau penodol i weithio tuag atynt, mae nifer o ganlyniadau annisgwyl sy'n bwysig o ran rhannu dysgu ac arferion da. Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o lwyddiannau a chyflawniadau'r prosiect nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mhedwar canlyniad penodedig y prosiect.

### **Teuluoedd yn teimlo'n llai ynysig**

Er mai nod y prosiect oedd cynyddu cyfleoedd cymdeithasu i bobl ifanc anabl, mae hefyd wedi gwneud i'r rhieni deimlo'n llai ynysig. Drwy gynorthwyo pobl ifanc i adael y cartref teuluol heb eu rhieni, dywedodd y rhieni fod ganddynt yn awr ychydig yn fwy o amser iddynt eu hunain er mwyn cael seibiant o'u dyletswyddau gofalu a'r opsiwn i gymdeithasu eu hunain. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i leiafrif o'r rhieni wneud ffrindiau â rhieni eraill gyda phlant oedd yn cymryd rhan yn y prosiect, gan greu cyfeillgarwch a chyd-gymorth rhwng rhieni.

### **Pwysigrwydd lleoliadau gwaith a gwirfoddoli**

Mae sylwadau'r bobl ifanc yn y grwpiau ffocws yn pwysleisio pa mor bwysig yw lleoliadau gwaith a gwirfoddoli o ran newid eu hunan-argraff o'u galluoedd a'u dyheadau. Roedd bob un o'r bobl ifanc a fynychodd lleoliadau gwaith yn falch iawn o'r hyn oedden nhw wedi'i gyflawni ac aeth rhai ymlaen i sicrhau gwaith cyflogedig. Roedd dyheadau gwaith yn amlwg yn rhywbeth yr oedd y bobl ifanc yn dechrau datblygu, gyda'r bobl ifanc oedd wedi cyflawni lleoliadau gwaith llwyddiannus yn fodolau rôl ar gyfer pobl ifanc eraill ac yn eu hannog, gan gyfrannu'n sylweddol at wella hyder a hunangred.

### **Cymhwyso'r gwaith ar draws y sector gwirfoddol ac addysg**

Cafodd y sesiynau a ddefnyddiwyd yn yr hyfforddiant cydraddoldeb anabledd gyda phobl ifanc eu lledaenu mewn seminar gwrth-fwlio genedlaethol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru ym mlwyddyn 1. Roedd ffocws y seminar ar rôl addysg gydraddoldeb mewn atal bwlio a sut y mae angen i hyn ddigwydd mewn grwpiau cymunedol, nid dim ond mewn ysgolion. Mae'r hyfforddiant cydraddoldeb anabledd sy'n cael ei ddarparu i bobl ifanc gorfforol abl, ac elfennau o'r cwrs diogelwch personol a gynhaliwyd gyda chyfranogwyr y prosiect, yn hynod berthnasol i'r sector addysg ac i dwf cydraddoldeb yng ngoleuni dogfen *'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'* (2014) Llywodraeth Cymru, ac adroddiad thematig diweddar Estyn *'Gweithredu ar Fwlio: adolygiad o effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig disgyblion'* (2014). Gellir hefyd ailadrodd ennill mwy o ddewis a rheolaeth, drwy wneud penderfyniadau a fforymau, ar draws sectorau a grwpiau cymunedol eraill.

### **Cymhwyso ar draws grwpiau oed**

Ffocws y prosiect yw gweithio gyda phobl ifanc anabl wrth iddynt bontio i fod yn oedolion. Fodd bynnag, o'r ffurflenni gwerthuso'n dilyn yr hyfforddiant ac o'r adborth gan gynullfannau cymunedol, mae'r gwaith yr un mor gymwys i blant oed cynradd ac mae angen cysylltu cymunedol ar draws pob oed.

## **Defnydd strategol o waith grŵp**

Nid dim ond cyflawni gweithgareddau a wnaeth y prosiect oherwydd mae gweithgareddau a chysiau grŵp yn fwy na hynny. Mae rhaglen grŵp wedi'i dylunio'n dda'n fwy na dysgu sgiliau: mae'n cynnwys sgiliau cymdeithasu, adeiladu tîm a sgiliau annibynnol. Er enghraifft, eglurodd un gŵr ifanc mai'r diwrnod gorau iddo fe oedd trip i Stadiwm y Mileniwm. Fodd bynnag, roedd yn llawer mwy na thrip i gael hwyl neu ehangu gorwelion. Eglurodd y gŵr ifanc ei fod yn wych oherwydd ei fod wedi prynu ei docyn trê'n ei hun am y tro cyntaf ac yn ddi-gymorth. Eglurodd ei fod yn syndod iddo nad oedd yn beth anodd ei wneud. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn gyffro i gyd gyda'r tripiâu, nid yn unig oherwydd y gweithgareddau ond o gael cyfle i wneud eu brechdanau eu hunain. Ni ddylid synied yn rhy isel am y cyfuniad o sgiliau a ddysgir drwy'r cysiau grŵp ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gymaint gan y cyfranogwyr. Felly hefyd, roedd y cwrs preswyl wedi rhoi hwb aruthrol i annibyniaeth a hyder y bobl ifanc ond roedd dal yn gyfle i fod gyda ffrindiau a chael hwyl.

## **Arloesi mewn cysylltu cymunedol**

Yn aml, mae prosiectau cysylltu cymunedol yn cefnogi unigolion i gyflawni gweithgareddau o'u dewis nhw ac yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y cysylltu penodol hwnnw. Mae'r prosiect wedi bod yn arloesol drwy fynd â grwpiau o bobl ifanc i 'fannau cyfarfod anffurfiol', h.y. cynullfannau cymunedol lle daw pobl at ei gilydd. Un anhawster cyffredin a welir yn aml gyda chysylltu cymunedol yw galluogi pobl ifanc anabl i gael eu cynnwys mewn grwpiau anffurfiol mewn mannau cymunedol. Drwy fynd â phobl ifanc i gynullfannau cymunedol, mae'r prosiect yn cymryd y camau cyntaf i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau. Mae hefyd wedi galluogi'r bobl ifanc i gwrdd mewn cynullfannau cymunedol heb gymorth yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar grŵp neu weithgaredd.

## **Lefel y gweithredu sgiliau ymhlith cyfranogwyr y prosiect**

Mae'r dadansoddiad o'r dangosyddion a'r canlyniadau'n hepgor ffocws ar lefel y gweithredu sgiliau a gyflawnir gan y bobl ifanc. Yn y grwpiau ffocws, pwysleisiodd y bobl ifanc mai un o'r pethau mwyaf pleserus o gymryd rhan yn y gwaith grŵp oedd gallu gwneud pethau newydd heb gymorth. Eglurodd un ferch ifanc faint o hwyl oedd gallu hwfro a gwneud cacen gartre. Dywedodd y bobl ifanc i gyd eu bod wedi dysgu pethau newydd y byddent yn parhau i'w gwneud. Roedd y rhain yn amrywio o wneud ffilmiau byr yn ddyddiol, teithio i rywle ar eu pen eu hunain, ôl-ddilyn cysiau cerdd ac opsiynau yn y coleg lleol, a mynychu grwpiau cymunedol fel drama.

Mae effaith y prosiect ar y bobl ifanc yn amlwg wedi gweddnewid eu bywydau fel y gwelwn o'r sylwadau isod mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych yn bwriadu ei wneud o fis Medi ymlaen a thros y flwyddyn nesaf?'

'Glanhau'r tŷ a chadw'r wybodaeth am hylendid a ddysgais'

'Rwyf am fynd i siopa a dysgu mwy o sgiliau arian. Rwyf am goginio a gwneud mwy o ymarfer corff i fod yn iach.'

'Rwy'n hoffi mynd i fowlio. Rwy'n hoffi mynd i'r sinema. Rwy'n hoffi mynd i'r amgueddfa. Rwy'n gobeithio mynd gyda ffrind un diwrnod heb i rywun fynd â fi.'

'Rwy'n hoffi gwneud ffilmiau. Rwyf am wneud mwy o gelf a miwsig. Rwyf wedi ymuno â chlwb tennis ac rwyf hefyd yn dawnsio stryd. Rwy'n mynd i wneud hyn i gyd flwyddyn nesaf.'

Pan holwyd hwynt am eu dyheadau hirdymor, soniodd y bobl ifanc am fod eisiau gweithio, cael perthynas a mwynhau eu hunain. Dros y cyfnod gwerthuso, mae'n amlwg bod dyheadau'r bobl ifanc wedi newid ac wedi ehangu.

### **Yn cynnig bywyd y tu allan i'r teulu**

Dywedodd lawer o'r bobl ifanc a'u rhieni nad oedd ganddynt ddim i'w wneud y tu allan i'r teulu a'r ysgol cyn i'r prosiect Cysylltu Cymunedol ddechrau. Dywedodd y rhieni bethau fel:

'Welais i hi erioed yn cael ffrindiau.'

'Roedd yn arfer â dod adre o'r ysgol ac eistedd yn ei ystafell. Nid oedd [ganddo] ddim byd. A neb o'i gwmpas'.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni mai hwn oedd y tro cyntaf i'w plentyn gael cyfle i gyflawni gweithgareddau a hobiau yn eu hamser hamdden a'u bod yn gwerthfawrogi'n arbennig bod y prosiect wedi hwyluso dewisiadau ynghylch gweithgareddau a phethau i'w gwneud ac nad oedd cael y plentyn ifanc i'w cyflawni'n dibynnu ar gymorth y teulu. Hwn oedd eu profiad cymdeithasol gwirioneddol cyntaf meddent. Mae'n amlwg bod y bobl ifanc a'r rhieni'n gweld gwerth aruthrol yn y prosiect, ond mae hefyd yn rhedeg y risg o gael ei weld fel gwasanaeth achubol yn hytrach na gwasanaeth cysylltu cymunedol, sy'n codi materion o gynaliadwyedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Mae'n dangos hefyd faint o waith meithrin gallu sydd angen ei wneud yn y gymuned.

### **Ansawdd y gwaith gan staff Barnardo's Cymru**

Teimlai'r bobl ifanc y dylai'r adroddiad hwn bwysleisio ansawdd y cymorth a dderbyniwyd gan staff Barnardo's. Yn unfrydol, roedd y bobl ifanc, brodyr a chwiorydd a rhieni'n canmol gwaith staff Barnardo's Cymru i'r cymylau. Casglwyd sylwadau drwy flwch sylwadau dienw fel y gallai pobl siarad yn onest ac, yn y grwpiau ffocws, roedd y staff yn gadael yr ystafell fel y gallai'r bobl ifanc siarad yn uniongyrchol am y cymorth a gawsant heb i'r staff fod yn bresennol. Y sylw mwyaf cyffredin oedd bod rhieni'n gadarnhaol iawn ynghylch ansawdd y gwasanaeth a'i fod wedi cynorthwyo'r bobl ifanc anabl i gael bywyd cymdeithasol ac i fagu llawer mwy o hyder. Rhestrir rhai o'r sylwadau isod. Dyfynnir hwynt i ddangos consensws barn.

'Cawsom wasanaeth rhagorol i X. Mae'r staff yn WYCH a bob amser yn barod i helpu - a rhoi ei hanghenion hi yn gyntaf. Gwerth chweil, diolch!'

'Mae Barnardo's wedi rhoi hwb i hyder fy nau blentyn ac wedi dangos pethau iddynt a helpodd y ddau. Diolch yn fawr, chi'n wych.'

'Roedd rhaglen yr haf wedi'i threfnu mor dda ac yn bositif iawn i'r plant!' Mae ein teulu ni wedi cael mantais aruthrol o'r gwasanaeth. Diolch am ofalu am ein plant mor dda!'

'Hollol fendigedig! Staff cyfeillgar gwych a gwaith rhagorol.'

'Dyma'r peth gorau a allai ddigwydd i Flaenau Gwent.'

'Mae'n siarad gyda fi nawr am bethau y tu allan i'r teulu a'r ysgol.'

Roedd sylwadau'r bobl ifanc yn cynnwys:

'Maen nhw'n gwneud pethau'n ddifyr.'

'Mae'n braf bod gyda nhw. Maen nhw fel ffrindiau neu frodyr a chworydd. Maen nhw fel ein teulu.'

'Maen nhw'n dda am wrando ac yn amyneddgar. Maen nhw wedi fy helpu i a [fy rhiant] yn ofnadwy.'

Dyweddodd lawer o'r bobl ifanc eu bod yn gobeithio y byddai staff yn y sefydliadau eraill yn gweithio gyda nhw yn yr un ffordd â staff Barnardo's. Y nodweddion pwysicaf ar gyfer arferion da oedd amynedd, anogaeth a dathlu llwyddiant.

### **Ffocws cymysg**

Mae ffocws y prosiect Cysylltu Cymunedol yn driphlyg. Yn gyntaf, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddysgu a datblygiad y person ifanc unigol; yn ail, ar adnoddau cymunedol i feithrin gallu, ac yn olaf ar deulu'r person ifanc. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n canolbwyntio ar un o'r tri ond byth bron ar y tri pheth. Mae angen y ffocws holistig hwn i alluogi cysylltu cymunedol cynaliadwy. Teimlai rieni fod cynnwys y teulu'n flaenoriaeth gan groesawu'n arbennig yr ymweliad â'r cartref teuluol cyn ymuno â grwpiau, bod diwrnodau hwyl i'r teulu'n cael eu cynnal, a'r cyfathrebu da fel eu bod yn gwybod beth oedd yn digwydd. Roedd rhieni hefyd yn mwynhau gallu treulio amser gyda theuluoedd eraill oedd â phlentyn anabl, gan roi teimlad o uniaethu a gwneud i'r teulu deimlo'n llai ynysig. Yn unfrydol, teimlai'r rhieni y dylai'r prosiect ganolbwyntio ar y person ifanc yn gwneud pethau y tu allan i fywyd y teulu ond roeddent yn croesawu'r ffordd oedd y prosiect wedi gweithio gyda nhw. Roeddent hefyd yn croesawu'r cyfeillgarwch a dyfodd wrth gyfarfod rhieni eraill yn y prosiect.

Soniodd frodyr a chworydd hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r ffocws ar deulu. Fel y byddid yn ei ddisgwyl efallai, roeddent yn mwynhau'r tripiâu ond hefyd yn siarad am yr adeiladu tîm a wnaethant a pha mor dda oedd gwybod bod eu brawd neu chwaer yn gwneud yn dda a mynd allan i fwynhau eu hunain. Yn y gweithdai gwerthuso, crëwyd tudalen flaen i bapur newydd yn sôn am drip teuluol i Sw Chessington. Cyfeiriodd y brodyr / chworydd at yr adeiladu tîm ac at yr hwyl a gawsant yn rhedeg o gwmpas gyda theuluoedd eraill a'u brodyr / chworydd. Y neges bennawd oedd 'Da iawn chi Barnardo's am gefnogi teuluoedd!'

### **Cymhlethdodau gyda chysylltu cymunedol**

Roedd rhai tensiynau yn y prosiect o ran cysylltu cymunedol. Ar ddiwedd blwyddyn 1, roedd y prosiect ar ei hôl hi gyda'r gweithgareddau cysylltu cymunedol ond o ganlyniad i'r cynnydd buan ym mlwyddyn 2 llwyddwyd i ragori ar dargedau a sefydlu nifer o gysylltiadau cymunedol eang ar gyfer 35 o bobl ifanc. Ym mlwyddyn 1, cododd dri rhwystr clir o ran cysylltu cymunedol fel bod angen i'r prosiect wneud

llawer iawn o waith paratoi cyn yr oedd yn bosibl cyflawni unrhyw gysylltu cymunedol. Y rhwystrau hyn oedd:

1. Mae'r prosiect Cysylltu Cymunedol wedi gorfod meithrin hyder a gallu cymunedol sylweddol cyn gallu gwneud unrhyw waith cysylltu cymunedol ag unigolion. Dywedodd rai o'r gweithwyr ieuenctid ar y cyrsiau hyfforddi nad oeddent erioed wedi gweithio â phobl ifanc anabl o'r blaen a dywedodd rhieni na chafodd y bobl ifanc erioed gyfle i gymdeithasu o'r blaen. Felly, roedd yn hollbwysig i'r prosiect gyflawni llawer iawn o waith cyn y gallai cysylltu cymunedol fod yn bosibilrwydd realistig a chynaliadwy. Roedd yn amlwg nag oedd grwpiau prif ffrwd presennol wedi'u harfogi ar gyfer cynhwysiant yn aml.
2. Roedd angen i'r prosiect ganolbwyntio ar waith grŵp er mwyn codi dyheadau a hyder unigolion. Roedd yn greiddiol bod y bobl ifanc yn teimlo y gallent ymuno â sefyllfa gymdeithasol brif ffrwd a llwyddo i ddysgu pethau newydd, fel bod yn rhywle anghyfarwydd, teithio ar eu pen eu hunain neu ddysgu sgil newydd.
3. Ym mlwyddyn 1, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni mai un o fanteision y prosiect oedd 'nad yw'n cymysgu â grwpiau eraill sy'n rhedeg' ac er bod y rhieni i gyd yn gadarnhaol iawn tuag at y prosiect, nid oedd rhai rhieni o blaid cynnwys eu pobl ifanc mewn sefyllfaoedd prif ffrwd.' Wrth i'r prosiect ddatblygu ac wrth i fwy o bobl ifanc lwyddo i ymuno gyda neu ddefnyddio adnoddau cymunedol prif ffrwd, mae rhai rhieni'n poeni llai am hyn. Fodd bynnag, erbyn diwedd blwyddyn 2, roedd rhai rhieni'n dal i deimlo 'na all ein plant fynd i glybiau ieuenctid lleol neu le bynnag' gan egluro fod polisiau mynediad agored, diffyg cymorth personol, diffyg gwybodaeth ac arbenigedd y staff, ac ofn bwlio i gyd yn cyfrannu at bryderon ynghylch grwpiau prif ffrwd.

## CASGLIADAU AC ARGYMHELLION AR GYFER SYMUD YMLAEN GYDA CHYSYLLTU CYMUNEDOL A DYSGU O'R PROSIECT

### Cwrdd â thargedau ac ansawdd y gwaith

Llwyddwyd i ragori ar y targedau rhifol ar gyfer canlyniadau 2 a 4 ynghylch codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu grwpiau cymunedol ac o ran sicrhau bod arferion da'n cael eu lledaenu. Nid yw'r prosiect wedi gweithio gyda digon o bobl ifanc i allu cwrdd â thargedau rhifol ar gyfer canlyniadau 1 a 3. Pan holodd y gwerthuswyr ynghylch prosesau ar gyfer atgyfeirio i'r prosiect a chydweithio, daeth yn glir bod rhai gwasanaethau a sefydliadau'n fwy parod i gynorthwyo nag eraill. Dros y ddwy flynedd, ni dderbyniodd y prosiect unrhyw atgyfeiriadau gan bedair ysgol uwchradd yn yr ardal nac ychwaith gan wasanaethau cymdeithasol oedolion, er iddo gynnal cyfarfodydd a chysylltu gyda sefydliadau perthnasol. Efallai mai un o'r rhesymau am hyn yn aml yw bob pobl ifanc yn y grŵp oed hwn rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion ac felly'n gallu disgyn drwy fylchau yn y ddarpariaeth. Drwy'r ymholiadau cychwynnol hyn, mae'n glir bod y prosiect wedi cymhell atgyfeiriadau a chyflawni gwaith cydweithredol da gydag amrywiaeth o sefydliadau lleol ym Mlaenau Gwent.

Yn ogystal, mae'r dangosyddion rhifol yn ymddangos i fod yn is na'r targed oherwydd y gallai'r bobl ifanc ddewis pa ganlyniadau yr oeddent eisiau gweithio tuag atynt. Mae'r prosiect wedi ceisio gweithio tuag at ganlyniadau a nodwyd ymlaen llaw, canlyniadau rhaglen y Loteri Fawr, ond er hynny'n galluogi pobl ifanc i nodi eu hunain pa ganlyniadau ystyrlon yr oeddent eisiau gweithio tuag atynt. Yn aml iawn gyda phrosiectau ni roddir yr elfen ddewis hon oherwydd nad yw pobl ifanc efallai'n dewis y canlyniadau sy'n cyd-fynd â gofynion y sefydliad neu'r cyllidwyr. Dyna pam fod y data ansoddol hefyd yn bwysig. Mae'r data ansoddol yn awgrymu y llwyddwyd i ragori ar holl ganlyniadau'r prosiect a bod y gwaith ar gysylltu cymunedol a gwella hyder yn arbennig o ragorol.

### Argymhellion ar gyfer datblygu'r gwaith cysylltu cymunedol ym Mlaenau Gwent

1. Parhau gyda'r ffocws presennol ond gweithio ar ddatblygu strategaethau ymadael i'r bobl ifanc. Mae tua deg o bobl ifanc wedi gadael y prosiect ers iddo ddechrau. Mae'r data gwerthuso'n glir bod angen cymorth hirdymor ar y bobl ifanc ond, er mwyn bod yn gynaliadwy, bod angen cymorth gan wasanaeth ar y bobl ifanc i ymadael. Yn ogystal, pe bai'r prosiect yn parhau, gallai'r ffocws fod ar wydnwch ac annibyniaeth a galluogi'r bobl ifanc i gymdeithasu a manteisio ar gyfleoedd mewn sefyllfaoedd prif ffrwd gyda llai o gymorth lle byddai hynny'n briodol. Dylai prosiect fel hwn fod yn gyfrwng i greu cynhwysiant, nid y prif ddull o greu cynhwysiant.
2. Mae gan rieni bryderon o hyd ynghylch sefyllfaoedd prif ffrwd. Pe bai'r prosiect yn parhau, gallai ganolbwyntio ar gysylltu cymunedol, gyda'r rhieni'n cyfrannu at yr hyfforddiant cynhwysiant i staff ac yn cyfarfod â staff mewn sefyllfaoedd prif ffrwd i leihau eu pryderon ac i barhau i feithrin gallu mewn adnoddau cymunedol. Os nad yw rhieni eisiau i'w plant fynychu sefyllfaoedd prif ffrwd, mae angen gwrando'n iawn ar eu pryderon a gweithio gyda nhw er mwyn i gysylltu cymunedol ddigwydd. Gellid hefyd meithrin gallu'r adnoddau cymunedol drwy gynig lleoliadau mentora.
3. Gwneud mwy o ddefnydd o leoliadau gwaith gyda chefnogaeth. Roedd y lleoliadau gwaith a gwirfoddoli wedi cael effaith ddofn ar bobl ifanc y prosiect. Gallai prosiect newydd ganolbwyntio ar

leihau nifer y bobl ifanc anabl na fyddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, drwy barhau i ganolbwyntio ar y sgiliau personol ond drwy drefnu lleoliadau a gynorthwyr i gyd-fynd â hynny.